Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

Nicola Stubbins
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Dyddiad / Date: 16/04/2025

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Archwiliad Gwelliant â gwasanaethau plant Awdurdod Lleol Sir Ddinbych**

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau'r ymweliad Archwiliad Gwelliant â gwasanaethau plant (y gwasanaeth) Cyngor Sir Ddinbych rhwng 17 a 19 Chwefror 2025. Roedd hyn yn dilyn Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ym mis Chwefror 2023.

## 1. Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd yr Archwiliad Gwelliant ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd canlynol y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod yr Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA).

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad ar y Cyd o | Cynnydd a nodwyd yn ystod yr |
|---|---|---|

| | Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yn 2023 | Archwiliad Gwelliant |
|---|---|---|
| Pobl | Rhaid i wasanaethau eirioli gael eu hatgyfnerthu er mwyn gwella cyfleoedd i gynrychioli safbwyntiau plant. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |
| | Rhaid gwella sefydlogrwydd a chapasiti'r gweithlu er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |
| Atal | Mae angen rhoi cymorth gwell i aelodau o deuluoedd a gofalwyr a chyfathrebu'n well â nhw | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |
| Llesiant | Rhaid rhoi Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith yn gyson.<br><br>Mae angen dadansoddiad cliriach o risgiau a rhesymeg i gefnogi penderfyniadau. Rhaid atgyfnerthu'r broses ar gyfer monitro cynnydd cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.<br><br>Rhaid gwella ymarfer yn seiliedig ar gryfderau a'r pwyslais ar ffactorau amddiffynnol ym mywydau plant.<br><br>Rhaid gwella trefniadau goruchwylio'r tîm rheoli er mwyn cefnogi ymarfer rheng flaen ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnwys wrth y 'drws ffrynt'. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach.<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach.<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach.<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |
| Partneriaeth | Rhaid atgyfnerthu'r prosesau ar gyfer cyfathrebu ag asiantaethau partner mewn perthynas â: | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Sicrhau y caiff gwahoddiadau eu hanfon fel mater o drefn i gyfarfodydd allweddol a gaiff eu cynnal yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |
| | • Rhannu canlyniadau 'dyletswydd i roi gwybod' a geir, yn ogystal â chofnodion a dogfennaeth o gyfarfodydd allweddol. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |
| | Rhaid i'r gwasanaeth helpu asiantaethau partner i ddeall risgiau. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach. |

**2. Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau**

Mae rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl diffinio meintiau yn Atodiad dau.

**3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Archwiliad Gwelliant**

3.1 Mae gwasanaethau plant yn wynebu pwysau parhaus o ran cynnydd yn y galw a chymhlethdodau yn ymwneud ag anghenion plant a theuluoedd, yn erbyn cefndir o gyfnod ariannol heriol.

3.2 Mae'r gwasanaeth wedi datblygu o'i sefyllfa yn 2023, gyda chymorth arweinwyr cyson a chefnogol sy'n gweithio gydag ymarferwyr a rheolwyr. Mae'r rheolwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, ac mae hyn yn meithrin diwylliant o ddysgu sy'n llawn ymddiriedaeth lle na chaiff unigolion eu barnu.

3.3 Mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr arweinwyr a'u cydweithwyr.

3.4 Bu'n heriol recriwtio a chadw staff, ac mae'n parhau'n her. Fodd bynnag, mae cnewyllyn o staff hirdymor parhaol yn gweithio i ddarparu gwasanaeth sy'n cefnogi sefydlogrwydd yn y tymor hwy. Er gwaethaf yr heriau staffio, mae gwell sefydlogrwydd mewn rhai timau a gaiff eu cefnogi gan weithwyr asiantaeth. Mae hyn yn golygu bod llwythi achosion rhai timau wedi lleihau, a'u bod yn gallu ymdopi'n well â'r llwyth gwaith.

3.5 Ceir ffocws ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth plant a phobl ifanc. Mae pwysigrwydd cynnig cymorth integredig effeithiol yn flaenoriaeth i'r arweinwyr.

3.6 Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud wrth y 'drws ffrynt' ac mae'r broses o gofnodi rhesymeg a phenderfyniadau yn cael ei goruchwylio'n well. Fodd bynnag, ceir pwysau sylweddol yn y maes hwn o hyd.

3.7 Er bod yr arweinwyr yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed, maent hefyd yn ymwybodol bod angen gwneud gwelliannau pellach. Mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol i'r gwasanaethau plant, ac mae'n hanfodol bod y gefnogaeth hon yn parhau er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn parhau i lywio gwelliannau ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth**

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Pobl**

**<u>Cryfderau</u>**

4.1 Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn darparu arweinyddiaeth sefydlog ac mae'r ymarferwyr yn eu disgrifio fel unigolion gweladwy, cefnogol a hawdd mynd atynt.

4.2 Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad yr ymarferwyr, ac mae'n amlwg bod yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion ac amgylchiadau'r bobl y maent yn eu cefnogi.

4.3 Mae diwylliant cadarnhaol ac iach yn y gwasanaeth, a gaiff ei gefnogi gan ddull drws agored a ffocws sylweddol ar y ffordd orau o gefnogi ymarferwyr a rheolwyr. Hefyd, mae'r rheolwyr yn cynnig her adeiladol lle bo angen.

4.4. Mae'r ymarferwyr yn nodi'n glir bod cyfleoedd i fyfyrio ar ymarfer. Roedd pob un o'r ymarferwyr/rheolwyr (a gwblhaodd yr arolwg staff) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y broses oruchwylio yn broses fyfyriol. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth yn y cofnodion goruchwylio i ddangos bod ffocws ar ymarfer myfyriol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y cofnodion goruchwylio yn nodi'r ffocws ar ymarfer myfyriol yn gyson.**

4.5 Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu ac elwa ar hyfforddiant allanol yn ogystal â chyfleoedd mewnol fel trafodaethau misol i fyfyrio ar achosion â chymheiriaid a/neu reolwyr.

4.6 Mae'n gadarnhaol bod rhai timau yn y gwasanaeth wedi sefydlogi yn sgil newidiadau i'r strwythurau, gan gynnwys comisiynu gweithwyr asiantaeth a thrwy greu capasiti ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi parhau â'i ymdrechion recriwtio ac mae llwybrau gwell ar gyfer camu ymlaen yn eich gyrfa er mwyn annog y staff i aros, gan gynnwys mwy o fuddsoddiad yn y rhaglen 'Datblygu Mewnol'. Mae'n gadarnhaol nad oes unrhyw gyfyngiadau ar ymdrechion i recriwtio ymarferwyr gwasanaethau plant ar hyn o bryd, sy'n dangos cefnogaeth gorfforaethol a wleidyddol i'r gwasanaeth a gaiff ei arwain gan y galw. Maent hefyd yn cael cymorth arbenigol gan yr adran Adnoddau Dynol.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.7 Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth eirioli ffurfiol i blant a rhieni, ond mae camau i gofnodi'r cynnig hwn yn amrywio. Gwelsom rai enghreifftiau diweddar lle nad oedd plant a rhieni wedi cael gwasanaeth eirioli ffurfiol mewn modd amserol. Mae'r contract rhanbarthol yn cyfyngu'r gwasanaeth eirioli ffurfiol a gynigir i rieni mewn perthynas ag amddiffyn plant i dair sesiwn, gyda phrosesau ar waith i gynnig mwy o gymorth pan fo angen. Mae dealltwriaeth ymarferwyr o'r cyfyngiadau hyn yn anghyson, a allai effeithio ar y gwasanaethau eirioli a ddarperir. Mae'r awdurdod lleol wedi gofyn i'r tîm comisiynu adolygu'r contractau ar gyfer y gwasanaethau eirioli sydd wedi'u comisiynu ac archwilio achosion lle nad yw'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu mewn modd amserol. **Dylai'r awdurdod lleol ddangos yn gliriach ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol mewn perthynas â chynnig gwasanaeth eirioli a rhaid iddo sicrhau bod y trefniadau comisiynu yn ymateb i anghenion pobl.**

4.8 Mae'r broses recriwtio staff yn parhau i fod yn her i'r awdurdod lleol, yn enwedig wrth recriwtio i swyddi allweddol o fewn timau penodol. Mae rhai meysydd gwasanaeth yn wynebu heriau mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson mewn modd amserol. Mae recriwtio a chadw staff wedi'i nodi ar gofrestr risgiau corfforaethol yr awdurdod lleol o hyd, sy'n sicrhau y caiff flaenoriaeth ddigonol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion i sicrhau gweithlu digonol a chynaliadwy, â'r capasiti a'r gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.9 Dywedodd aelodau o deuluoedd a gofalwyr wrthym am fanteision tîm therapiwtig yr awdurdod lleol. Yn benodol, o ran helpu rhieni a neiniau a theidiau i ddeall profiad bywyd plentyn a'r ffordd y mae ymddygiadau gwahanol yn effeithio ar blant. **Mae'r defnydd o Realiti Rhithwir i hyrwyddo ymddygiadau rhianta cadarnhaol yn enghraifft o ymarfer arloesol a chadarnhaol.**

4.10 Mae cyfleoedd i aelodau o deuluoedd a gofalwyr ystyried cyfleoedd cymorth posibl drwy Gynadleddau Grŵp Teulu. Caiff y cynadleddau eu harwain gan aelodau o deuluoedd i gynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer plant y mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi pryderon amdanynt ac sydd, o bosibl, yn wynebu risg. Maent yn gyfle i feithrin cryfderau teuluoedd, eu grymuso i ddeall pryderon ehangach ac i gymryd perchnogaeth dros gadw eu plant yn ddiogel. **Ceir enghreifftiau sy'n dangos bod y fforwm hwn yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, sy'n ymarfer cadarnhaol.**

4.11 Caiff hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth ei ddarparu'n fewnol ac roeddent yn canmol ansawdd yr hyfforddiant amrywiol sydd ar gael. Mae hyn yn galluogi'r gofalwyr i ddod i adnabod pob aelod o'r tîm maethu ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddod i adnabod gofalwyr maeth eraill sy'n creu rhwydwaith cymorth iddynt. Mae cyfleusterau galw heibio ar gyfer gofalwyr yn y Rhyl y gall gofalwyr maeth/gofalwyr fanteisio arnynt pan fydd plant yn mynychu sesiynau cyswllt. Dywedodd y gofalwyr maeth, *“Denbighshire social services have always been on hand when needed by us as foster carers.”* Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y cymorth sydd ar gael. Maent yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd angen rhywbeth arnynt, ac mae'r cymorth wedi'i deilwra at eu hamgylchiadau unigol. Ceir hefyd rolau dynodedig i gefnogi gofalwyr sy'n gofalu am blant dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

4.12 Mae'r awdurdod lleol yn cynnal archwiliadau amrywiol, yn adolygu data chwarterol ac yn cynnal cyfarfodydd perfformiad bob yn ail wythnos er mwyn goruchwylio safonau ymarfer. Mae'r gwaith sicrhau ansawdd a gaiff ei gwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd annibynnol. Caiff rhestrau gwirio eu cwblhau er mwyn helpu i oruchwylio ymarfer mewn perthynas â chynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol, cynadleddau adolygu ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Caiff y rhestrau gwirio eu hadolygu a'u dadansoddi bob chwarter. **Yna, caiff themâu eu hystyried a chaiff argymhellion eu gwneud, sy'n enghraifft o ymarfer da.**

4.13 Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant ar sgyrsiau cydweithredol i'r staff er mwyn hyrwyddo cryfderau ac ymarfer seiliedig ar ganlyniadau. Mae enghreifftiau ar gael i ddangos bod y dull hwn yn cael ei fabwysiadu wrth weithio gyda theuluoedd, ond mae angen i'r ymarfer fod yn fwy cyson ac i'r cofnodion ddangos dull mwy cydweithredol yn hytrach na dull cyfarwyddol. Defnyddir elfennau o'r dull Arwyddion Diogelwch mewn cynadleddau achos er mwyn sicrhau ffocws ar risgiau a ffactorau amddiffynnol ar gyfer plant.

4.14 Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud wrth y ‘drws ffrynt’ ac mae'r broses o gofnodi rhesymeg a phenderfyniadau yn cael ei goruchwylio'n well. Mae'r rhan hon o'r gwasanaeth wedi wynebu heriau sylweddol oherwydd swyddi gwag a salwch. Yn gadarnhaol, rhoddwyd dull gwasanaeth cyfan ar waith i gefnogi gwelliannau wrth y ‘drws ffrynt’ a gwnaed ymdrech i recriwtio aelodau i'r tîm.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.15 Mae'r cynnydd yn y galw a'r heriau staffio a wynebwyd wedi effeithio ar ansawdd y cofnodion gofal cymdeithasol ac ar amseroldeb o ran eu lanlwytho i Paris (system cofnodi data). Yn yr un modd, er y gall yr ymarferwyr ddangos eu bod yn adnabod y plant a'r teuluoedd yn dda yn ystod trafodaethau, ni chaiff hyn bob amser ei adlewyrchu yn eu cofnodion. Er bod arferion sicrhau ansawdd ar waith a gaiff eu llywio gan fframwaith sicrhau ansawdd, byddai o fudd goruchwylio, dadansoddi ac archwilio rhai meysydd ymarfer yn well. Hefyd, mae ambell ran o'r broses o gofnodi a monitro data y gellid ei chynnal yn ehangach ar draws y gwasanaeth cyfan. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei fframwaith sicrhau ansawdd er mwyn gallu craffu ar ddata ansoddol a meintiol yn well i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth a sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio ymarfer rheng flaen ymhellach.**

4.16 Er gwaethaf y gwelliannau a wnaed wrth y 'drws ffrynt', a'r system frysbennu sydd ar waith i ddyrannu gwaith yn unol â blaenoriaeth o ran angen a diogelwch, mae achosion o oedi yn amlwg o hyd. Gallai hyn achosi i anghenion ddwysau, er bod y niferoedd yn gostwng. Felly, mae hwn yn faes y mae angen canolbwyntio arno yn fwy i sicrhau y gellir ymdopi'n well â'r llwyth gwaith, ac i sicrhau llif amserol o achosion rhwng timau a gwasanaethau ymyriadau cynnar. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at sicrhau y caiff model darparu cynaliadwy ei roi ar waith wrth y drws ffrynt er mwyn helpu pobl i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol.**

**Llesiant**

**<u>Cryfderau</u>**

4.17 Caiff cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal eu cynnal mewn modd amserol ar y cyfan.

4.18 Ar y cyfan, caiff adroddiadau gweithwyr cymdeithasol eu rhannu â rhieni mewn modd amserol cyn cynadleddau. Rhoddir y cyfle i rieni a phlant, lle y bo'n briodol, siarad â chadeiryddion er mwyn rhannu eu safbwyntiau.

4.19 Mae enghreifftiau sy'n dangos bod plant yn cael eu gweld a bod sgyrsiau yn cael eu cynnal â nhw ar eu pen eu hunain lle y bo'n briodol, ac mae eu safbwyntiau'n amlwg yn yr ymholiadau a47 sy'n cael eu cwblhau. Yn yr un modd, mae enghreifftiau sy'n dangos bod aelodau o deuluoedd yn cael eu holi i gael gwybod eu barn a bod y farn honno yn cael ei chofnodi'n glir er mwyn gallu cyfrannu at yr asesiad o'r risg i'r plant.

4.20 Mae ymholiadau a47 yn gynhwysfawr a chânt eu dyrannu a'u cynnal mewn modd amserol. Ar ddiwedd ymholiadau a47, gwneir penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'r plentyn yn wynebu risg barhaus o niwed sylweddol ai peidio.

4.21 Gwnaed cynnydd yn hyn o beth a cheir tystiolaeth fod rheolwyr yn goruchwylio'r broses er mwyn cefnogi a llywio ymarfer, er bod hyn yn fwy amlwg mewn rhai cofnodion nag eraill. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau goruchwylio hyn yn parhau ym mhob tîm a maes er mwyn hyrwyddo arferion gorau ac arferion sy'n cydymffurfio.**

## Meysydd i'w Gwella

4.22. Mae rhai enghreifftiau lle na chafodd plentyn ei weld ac nad ystyriwyd ei farn yn ystod asesiad rhan 3. Hefyd, enghreifftiau lle na chafodd plant eu gweld yn ddi-oed ar ôl gwneud honiad eu bod wedi cael eu cam-drin yn gorfforol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'n gyson bod pob plentyn yn cael ei weld yn unol â'r amserlenni gofynnol fel y'u nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, ac yn ystod asesiadau a gynhelir yn unol â Rhan 3 'y Ddeddf'.**

4.23 Nid yw'r gofal a'r cymorth na'r cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn cyfeirio'n gyson at farn y plentyn ac aelodau o'i deulu. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hatgyfnerthu yn y cynlluniau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn a'r unigolyn yn unol â disgwyliadau Rhan 4 'y Ddeddf' (cod-ymarfer-rhan-4-diwallu-anghenion.pdf).

4.24 Mae enghreifftiau sy'n dangos bod y risgiau i'r plant yn cael eu hystyried yn briodol, a bod rhesymeg glir dros benderfyniadau a wnaed am ddiogelwch plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn bob amser yn gyson. At hynny, gwelsom rai enghreifftiau lle nad oedd y risg i'r plentyn dan sylw yn glir gan fod y cofnodion yn canolbwyntio'n ormodol ar y risg i'w frawd neu chwaer. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion yn egluro penderfyniadau am ddiogelwch plentyn yn ddigonol a'u bod yn canolbwyntio ar y plentyn dan sylw, yn hytrach na chanolbwyntio ar ei frawd neu chwaer.**

4.25 Mae enghreifftiau rhagorol o asesiadau cyn-geni, ond yn fwy cyffredinol, yn aml nid yw asesiadau yn ddigon manwl a phrin yw'r gwaith dadansoddi a wneir. Er eu bod yn nodi risgiau, mae angen iddynt gynnwys dadansoddiad mwy trylwyr, gan gynnwys eglurder o ran effaith risgiau ar y plentyn. Byddai hyn yn rhoi cyfle i lywio'r cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn well. Mae cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn aml yn canolbwyntio ar dasgau, a phrin yw'r cysylltiadau a wneir rhwng y camau / tasgau gofynnol a sut y disgwylir iddynt leihau neu ddileu'r risg i'r plant, neu nid yw'r cysylltiadau hynny yn eglur. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y ceir gwell dadansoddiad o risgiau, ac yn benodol o effaith risgiau ar y plentyn, mewn cofnodion gofal cymdeithasol, ac y ceir eglurder o ran yr hyn sydd angen ei newid i sicrhau diogelwch y plentyn.**

4.26 Yn aml mae cofnodion y grŵp craidd yn cynnig diweddariadau o'r sefyllfa yn hytrach na gwerthusiad o effeithiolrwydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth wrth leihau'r risg o niwed sylweddol i'r plant. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod**

**cofnodion y grŵp craidd yn adolygu'r camau a gymerwyd yn gyson a'u bod yn adlewyrchu i ba raddau y mae'r camau hyn wedi cyfrannu at wella profiad bywyd y plentyn a'i amddiffyn rhag niwed.**

4.27 Gwelsom rai enghreifftiau lle roedd y cofnodion gofal a chymorth yn seiliedig ar ymholiadau a47 yn unig. Gall dibynnu'n unig ar ymholiad a47 yn hytrach nag asesiad o dan Ran 3 'y Ddeddf' olygu bod cyfleoedd yn cael eu methu i gasglu gwybodaeth am bum elfen allweddol asesiad (deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014.pdf). **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth wedi'u llunio yn seiliedig ar asesiadau sy'n cynnwys y pum elfen allweddol.**

**Partneriaethau**

**Cryfderau**

4.28 Cynhelir trafodaethau strategaeth bob dydd (dydd Llun i ddydd Gwener) ac mae ymarferwyr cyson yn cyfrannu atynt, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaethau prawf ac addysg. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.** Nodir hefyd bod yr awdurdod lleol yn parhau i ymdrechu i gynnwys cynrychiolydd iechyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y trafodaethau strategaeth dyddiol. Gwelsom hefyd enghreifftiau lle roedd amrywiaeth o gynrychiolwyr yn bresennol mewn trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth a oedd yn gwella'r cyfathrebu rhwng asiantaethau ac yn sicrhau bod mwy o fanylion ar gael am y risgiau i blant.

4.29 Mae cydberthynas weithio gryf rhwng y gwasanaeth plant a'r gwasanaeth addysg gan fod y ddau yn rhan o'r un gyfarwyddiaeth, yn cael eu hystyried fel un gwasanaeth ac yn defnyddio un cynllun gwasanaeth. Mae prosesau cyfathrebu rheolaidd a chyson ar waith ar lefel weithredol a strategol er budd plant a theuluoedd.

4.30 Er bod tystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dangos bod dull seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei roi ar waith wrth weithio gyda phlant a theuluoedd, mae'r ymarfer yn amrywio. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi elfennau o'r fframwaith ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar waith ac mae'n bwriadu ei roi ar waith yn llawn. Bydd rhoi fframwaith penodol ar waith yn cefnogi ac yn gwella eglurder i ymarferwyr yn yr asiantaethau gwahanol ynghylch gofynion a disgwyliadau ymarfer gweithredol. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei newid ac unrhyw gryfderau sydd ar waith, fel sut y gall y teulu a'r gymuned ehangach helpu i hyrwyddo diogelwch plant. Yn y cyfamser, mae'r ymarferwyr yn rhannu eu dogfen drothwy leol â phartneriaid bob hyn a hyn i'w helpu i ddeall a yw'r risg o niwed sylweddol yn ddigon uchel i roi Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith, a chymhwysedd plant a theuluoedd i gael gofal a chymorth. **Dylai'r awdurdod lleol fwrw ati'n ddi-oed â'i gynlluniau i roi model ymarfer estynedig ar waith i gefnogi ymarfer rheng flaen, ac i helpu partneriaid i ddeall risgiau yn llawn.**

4.31 Caiff cynadleddau eu cadeirio'n effeithiol i sicrhau bod rhieni yn deall y broses. Mae'r cadeiryddion yn esbonio pob cam yn glir ac yn rhoi cyfleoedd i'r rhieni ofyn cwestiynau, i'w helpu i ddeall ac i ymgysylltu.

**Meysydd i'w Gwella**

4.32 Gwnaethom nodi rhai achlysuron lle y byddai wedi bod yn briodol i'r atgyfeiriwr fod wedi mynychu'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth. Clywsom hefyd gan rai ymarferwyr nad ydynt yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i fynd i gyfarfodydd strategaeth ar gyfer y teuluoedd y maent yn ymwneud â nhw, hyd yn oed pan fyddai'n briodol iddynt fod yn bresennol. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried gwahodd pobl eraill i fynychu'r cyfarfodydd strategaeth yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gan gynnwys yr ymarferydd sy'n llunio'r adroddiad ac ymarferwyr priodol eraill fel gweithiwr cymdeithasol dynodedig arferol y plentyn.**

4.33 Gwelsom dystiolaeth fod pobl/ymarferwyr/rheolwyr wedi cael gwybod am ganlyniadau atgyfeiriadau a wnaed ganddynt yn unol â'u dyletswydd i roi gwybod am achosion, ond mae'r ymarfer hwn yn amrywio. Dywedodd ymarferwyr wrthym nad ydynt yn gallu bodloni'r gofyniad statudol hwn yn gyson oherwydd capasiti a'r cynnydd mewn atgyfeiriadau. **Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau'r ddyletswydd i adrodd mewn modd amserol i'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos i ddechrau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau 34 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 30 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â phedwar person sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 18 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, ymarferwyr gofal cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gwasanaethau, pennaeth y gwasanaethau plant, cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol).
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar gynhadledd adolygu achos amddiffyn plant.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**7. Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

**8. Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,

**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |